# Hunanladdiadau yng Nghymru

SAMARITANS Cymru

Cofrestrwyd **339** o hunanladdiadau yn 2022

Y gyfradd hunanladdiadau yn 2022 oedd **12.5** am bob 100,000 o bobl



**254** o wrywod
75% | 19.6 am bob 100,000 o bobl

**85** o fenywod
25% | 6.0 am bob 100,000 o bobl

**Disgynnodd cyfradd hunanladdiad gwrywod a'r gyfradd hunanladdiad gyffredinol yng Nghymru ychydig yn 2022, ac ni newidiodd cyfradd hunanladdiad benywod. Mae cyfraddau 2022 yn debyg i'r rhai a welwyd yn 2021 a 2019.**


Mae gwrywod deirgwaith yn fwy tebygol o farw drwy hunanladdiad na benywod yng Nghymru.

## Grwpiau oedran â'r gyfradd hunanladdiadau uchaf am bob 100,000 o bobl

**33.6** Gwrywod 35–39 oed

Mae llawer o gyfraddau hunanladdiadau oed benodol yn cael eu hystyried yn annibynadwy gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol pan maent wedi'u seilio ar lai nag 20 marwolaeth mewn grŵp oedran. Nid yw cyfraddau oed benodol benywod wedi'u cynnwys yma am y rheswm hwn.

## Cyfradd hunanladdiadau am bob 100,000 o bobl yng Nghymru 2008–2022




Nodiadau am y data: Ffynhonnell y data – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae hunanladdiad yn cyfeirio at farwolaethau lle mai **hunan-niwed bwriadol** yw'r achos sylfaenol a **digwyddiadau â bwriad ansicr.** Mae'r data yn dangos cofrestriadau o hunanladdiad. Mae'r cynyddiadau/gostyngiadau wedi'u seilio ar un flwyddyn o ddata. Mae'n bosibl nad yw'r rhain yn dangos tueddiadau tymor hirach ac nad ydynt yn arwyddocaol yn ystadegol. Mae'r cyfraddau cyflawn ar gyfer gwrywod, benywod a phawb wedi'u safoni yn ôl oedran. Mae'r cyfraddau sydd wedi'u rhannu fesul grŵp oedran yn amrwd.
Nodyn am yr anwadaliadau a ddangosir yn y graff: Yn aml mae poblogaethau llai yn cynhyrchu cyfraddau sy'n llai dibynadwy, felly mae'n bosibl y bydd gwahaniaethau yn nifer yr hunanladdiadau yn cael effaith fwy ar y gyfradd nag mewn poblogaethau mwy. Mae cyfraddau hunanladdiadau ymysg gwrywod a benywod i Gymru yn dangos patrwm anwadal oherwydd y nifer gymharol lai o farwolaethau.



Elusen gofrestredig

# Atodiadau

## Niferoedd hunanladdiadau Cymru ar gyfer pawb, gwrywod a benywod ac yn ôl grŵp oedran, 2020–22

### Tabl 1

| Cymru | 2020 | | | 2021 | | | 2022 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o farwolaethau ar gyfer pobl 10+ oed | Cyflawn 285 | Gwrywod 225 | Benywod 60 | Cyflawn 347 | Gwrywod 265 | Benywod 82 | Cyflawn 339 | Gwrywod 254 | Benywod 85 |
| Nifer o farwolaethau yn ôl grŵp oedran (blwydd) | Cyflawn | Gwrywod | Benywod | Cyflawn | Gwrywod | Benywod | Cyflawn | Gwrywod | Benywod |
| 10-14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| 15-19 | 12 | 8 | 4 | 17 | 16 | 1 | 10 | 7 | 3 |
| 20-24 | 24 | 21 | 3 | 22 | 16 | 6 | 18 | 13 | 5 |
| 25-29 | 24 | 19 | 5 | 29 | 23 | 6 | 22 | 20 | 2 |
| 30-34 | 20 | 18 | 2 | 26 | 23 | 3 | 29 | 23 | 6 |
| 35-39 | 23 | 16 | 7 | 36 | 23 | 13 | 43 | 34 | 9 |
| 40-44 | 24 | 19 | 5 | 34 | 29 | 5 | 32 | 23 | 9 |
| 45-49 | 32 | 25 | 7 | 40 | 30 | 10 | 36 | 29 | 7 |
| 50-54 | 35 | 28 | 7 | 40 | 26 | 14 | 29 | 19 | 10 |
| 55-59 | 21 | 16 | 5 | 24 | 18 | 6 | 32 | 24 | 8 |
| 60-64 | 22 | 16 | 6 | 15 | 10 | 5 | 28 | 20 | 8 |
| 65-69 | 14 | 13 | 1 | 12 | 10 | 2 | 13 | 10 | 3 |
| 70-74 | 11 | 9 | 2 | 21 | 15 | 6 | 10 | 4 | 6 |
| 75-79 | 6 | 5 | 1 | 16 | 13 | 3 | 11 | 7 | 4 |
| 80-84 | 6 | 3 | 3 | 12 | 10 | 2 | 12 | 9 | 3 |
| 85-89 | 5 | 4 | 1 | 3 | 3 | 0 | 6 | 5 | 1 |
| 90+ | 6 | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 | 7 | 6 | 1 |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Atodiadau

## Niferoedd hunanladdiadau Cymru ar gyfer pawb, gwrywod a benywod ac yn ôl grŵp oedran, 2020–22

### Tabl 2

| Cymru | 2020 | | | 2021 | | | 2023 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd am bob 100,000 o bobl ar gyfer pobl 10+ oed | Cyflawn 10.5 | Gwrywod 17.2 | Benywod 4.3 | Cyflawn 12.9 | Gwrywod 20.3 | Benywod 6.0 | Cyflawn 12.5 | Gwrywod 19.6 | Benywod 6.0 |
| Cyfradd am bob 100,000 o bobl yn ôl grŵp oedran (blwydd) | Cyflawn | Gwrywod | Benywod | Cyflawn | Gwrywod | Benywod | Cyflawn | Gwrywod | Benywod |
| 10-14 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 15-19 | 7.0* | 9.0* | 4.8* | 9.7* | 17.7* | - | 5.6* | 7.6* | 3.5* |
| 20-24 | 12.6 | 21.5 | 3.2* | 11.9 | 16.9* | 6.6* | 9.7* | 13.6* | 5.6* |
| 25-29 | 12.7 | 20.3* | 5.2* | 15.6 | 25.1 | 6.4* | 11.7 | 21.4 | - |
| 30-34 | 10.3 | 19.1* | - | 13.3 | 24.2 | 3.0* | 14.5 | 23.7 | 5.9* |
| 35-39 | 12.4 | 17.8* | 7.3* | 19.3 | 25.4 | 13.5* | 22.4 | 36.4 | 9.1* |
| 40-44 | 13.9 | 22.4* | 5.7* | 19.3 | 33.7 | 5.6* | 17.6 | 26.0 | 9.6* |
| 45-49 | 16.6 | 26.5 | 7.1* | 21.8 | 33.5 | 10.7* | 20.4 | 33.6 | 7.8* |
| 50-54 | 16.2 | 26.7 | 6.3* | 18.5 | 24.8 | 12.6* | 13.6 | 18.3* | 9.1* |
| 55-59 | 9.5 | 14.9* | 4.4* | 10.8 | 16.6* | 5.3* | 14.3 | 22.0 | 6.9* |
| 60-64 | 11.2 | 16.7* | 6.0* | 7.5* | 10.2* | 4.9* | 13.6 | 19.8 | 7.6* |
| 65-69 | 7.9* | 15* | - | 6.7* | 11.6* | - | 7.2 | 11.4 | 3.2* |
| 70-74 | 6.1* | 10.3* | - | 11.6 | 17.1* | 6.4* | 5.8 | 4.8 | 6.7* |
| 75-79 | 4.6* | 8.2* | - | 12.0* | 20.7* | 4.2* | 7.6* | 10.3* | 5.2* |
| 80-84 | 6.7* | 7.6* | 6.1* | 13.5* | 25.3* | - | 13.2* | 22.2* | 6.0* |
| 85-89 | 9.4* | 18.9* | - | 5.6* | 13.8* | - | 11.0* | 22.5* | - |
| 90+ | 20.0* | 52.3* | - | - | - | - | 22.9* | 60.3* | - |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ni chafodd cyfraddau oed benodol eu cyfrifo lle roedd llai na 3 marwolaeth a nodir y rhain â "-". Arfer gorau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yw peidio â chyfrifo cyfraddau ar sail niferoedd mor fach, gan eu bod yn anfanwl ac yn agored i gael eu dehongli'n anghywir. Mae cyfraddau oed benodol sydd wedi'u seilio ar lai nag 20 o farwolaethau wedi'u nodi â "*" i rybuddio defnyddwyr nad ydynt yn ddibynadwy iawn.